Mawrth 2023

# Polisi Amgylcheddol

Sefydliad sy'n cydweithio â phobl ifanc, artistiaid a chymunedau aml-genhedlaeth yw Peak, ar ddau safle yn y de ddwyrain, sef gorsaf drenau a hen ysgol, ac mewn lleoliadau gwledig fel mynyddoedd, ogofâu a chamlesi. Drwy raglenni i bobl ifanc (16-30 oed), ymchwil gydweithredol, a phreswylfeydd artistiaid, rydyn ni'n dathlu ecolegau a nodweddion unigryw ein hardal, gan gynnwys y Mynydd Du, y Gororau, a Dyffryn Wysg. Un rhan allweddol o'n gwaith yw cynnal trafodaethau cyhoeddus sy'n gwreiddio sgyrsiau argyfyngus byd-eang mewn llefydd a chyd-destunau lleol, dan arweiniad artistiaid a phobl ifanc mewn deialog gyda ffermwyr, daearegwyr, awduron, garddwyr, dylunwyr systemau a gwneuthurwyr a meddylwyr eraill. Rydyn ni'n creu amser, lle a chymorth i artistiaid a churaduron, ymarferwyr amlddisgyblaethol a phobl ifanc i greu, i arbrofi ac i gydweithio gydag ystod o ddeunyddiau a systemau gwybodaeth – sydd â'u gwreiddiau yn niwylliannau, arferion a llefydd yr ardal yma, gan ganolbwyntio ar ffyrdd i fyw nawr.

Rydyn ni'n cydnabod fel sefydliad bod angen i ni roi ein trosiadau ar waith – ac felly er enghraifft, ochr yn ochr â'r ***syniad*** o gompostio mewn ymchwil, mae angen i ni ***wneud*** y compostio. Dyma pam mai un o'n nodau strategol newydd yw Gweithredu'n Ecolegol, lle rydyn ni'n ymrwymo i'r canlynol:

- Bod Peak yn pontio tuag at ddyfodol cyfiawn, gwydn a datgarbonedig, ac yn cyflawni prosiectau lleihau carbon blynyddol er mwyn cael dealltwriaeth bellach o'n heffaith, a'i lleihau. Erbyn 2030 ein nod yw mesur a lleihau ein heffaith ecolegol yn fanwl, a dyfnhau gwybodaeth arbenigol yn nhîm y staff.
- Datblygu gardd gymunedol yn yr Hen Ysgol ar y cyd â phartneriaid cymunedol hinsawdd, llesiant, a garddwriaeth, gan ddarparu bwyd ar gyfer staff a chydweithwyr, lleihau gwastraff, ac fel teclyn i wreiddio themâu byd-eang yn ein hardal leol.
- Ystyried endidau 'mwy-na-dynol'* fel rhan allweddol o'n llywodraethiant, gan fabwysiadu un i'r bwrdd erbyn 2027.

Mae'r nod strategol yma'n cyd-fynd â nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sef **Cymru Gydnerth:** "Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid."

Fel rhan o Gynllun Strategol Peak (a ddiweddarwyd ym mis Mawrth 2023) rydyn ni wedi ymrwymo i ddiffinio a mynd ati i fabwysiadu cynllun tuag at leihau carbon a ffyrdd eraill o weithredu'n ecolegol, yn 2024-2025.

Cyn hynny, ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2023-2024 yw:

- Gweithio gydag ymddiriedolwyr a chydweithwyr, i greu polisi a chynllun amgylcheddol estynedig
- Gosod y seiliau ar gyfer gardd gymunedol yn yr Hen Ysgol
- Dechrau compostio yn yr Hen Ysgol, a pheilota polisi dim gwastraff bwyd yn y gegin
- Rhoi hyfforddiant i staff, ymddiriedolwyr a gweithwyr llawrydd ar lythrennedd hinsawdd, llythrennedd carbon a garddio cynaliadwy ar sail unigol, sefydliadol a chymunedol
- Datblygu a darparu peilot Cyfoedion Peak – rhaglen flynyddol esblygol i'w datblygu gyda ac ar gyfer Pobl Ifanc rhwng 18 a 30 oed sy'n byw ac yn gweithio yn y de ddwyrain. Bydd Pobl Ifanc yn cymryd rhan ac yn siapio rhaglen sy'n archwilio arfer creadigol, yr hinsawdd a ffyrdd o gydweithio – gyda chyfraniadau gan ffermwyr, beirdd, artistiaid, technolegwyr, ac eraill fel rhan o'i chwricwlwm creadigol. Mae Cyfoedion Peak yn digwydd ar ddau safle Peak ac mewn gwahanol leoliadau awyr agored yn ardal y Mynydd Du.